Rhif 8
Haf 1999

£1

`Y Gwir yn Erbyn y Byd!`

Seren Tan Gwmwl

ffansin hanes annibynnol

Ho Chi Minh boi!

GOLYGYDDOL - DYMA`R NEGES!

Y bwrdd golygyddol...
fel maen nhw`n gweld eu hunain

Mae`r rhifyn hwn o Seren Tan Gwmwl yn son llawer am wledydd bychain wnaeth frwydro yn erbyn gelynion mwy pwerus na nhw: Nicaragua a Vietnam yn eu brwydrau arwrol yn erbyn Americaniaeth; Gweriniaeth Sbaen a`i brwydr ddew yn erbyn pwerau Ffasgaidd Ewrop. I lawer o bobl roedd sefydlu`r Cynulliad Cymreig eleni yn benllanw brwydr Cymr dros ymreolaeth, yn ddiwedd brwydr hir dros gydnabod Cymru fel gwlad. Mae`n rhaid dysgu gwersi o wledydd fel Vietnam serch hynny. Gall feddu ar ei sefydliadau gwleidyddol ei hun, gall gael ei rhedeg gan bobl y wlad, ond nid yw`n wlad rydd. Mae diwylliant estron yn prysur goncro gwledydd, un sydd â grym cyfryngau torfol a chwmniau economaidd enfawr y tu ôl iddo.

Y bwrdd golygyddol...
fel mae pawb arall yn eu gweld!

Yn yr un modd mae`n rhaid i Gymry peidio meddwl bod y Cynulliad yn cynnig atebion i bopeth. Un elfen o`n hymwybyddiaeth fel cenedl ydyw, ac un bychan iawn ar hynny. Y gwir amdani yw y gall sefydlu Cynulliad yng Nghaerdydd fod yn wrth-gynhyrchiol yn y pen draw. Mae Caerdydd wedi dod yn Fecca, a`r ofn mawr yw bod holl egni creadigol Cymru yn mynd i gael ei sianelu i`r brif ddinas, a thrwy hynny yn colli ei ystyr.

Mae bod yn rhydd yn dechrau yn y meddwl, nid mewn deddf seneddol. Mae`r pwyslais diweddar ar ddinasyddiaeth yn gall bod yn wâg iawn. Beth yw`r pwynt gyrru adref o swydd Gymraeg sy`n derbyn nawdd, gan wrando ar Radio Cymru, cyn cyrraedd adref i wylio S4C. Rydym yn dod yn ddefnyddwyr goddefol, heb fewnbwn o gwbwl, heb egni creadigol. Mae Cymreictod yn yr achos hwn yn golygu bod y ddefnyddiwr diwylliant estron sy`n digwydd siarad Cymraeg.

Ar yr un pryd mae cyfryngau torfol Cymru yn ceisio darlunio Cymreictod fel rhywbeth dinesig, gan wawdio unrhyw beth nad yw`n gosmopolitan. Pobl sy`n bwyta seilej a chwarae coits yw unrhyw un sy`n byw i`r dwyrain o Benybont, fra boc Caerdydd soffistigedig yn eangfrydig. Au contraire!

Mae bywyd Cymraeg yn bodoli y tu hwnt i Gaerdydd, a hwn sy`n rhoi`r sail i`r sefydliadau Cymraeg hynny sy`n prysur tynnu pobl i`r brif ddinas. Mewn fforc felly mae cryfder a llwyddiant y Gymraeg mewn meysydd fel y cyfryngau torfo statws, a`r Cynulliad newydd yn arwain at ei gwanhau yng ngweddill Cymru. Mae`r mêr yn cael ei dynnu o asgwrn cefn Cymru.

Pob lwc i Seren Tan Gwmwl bois, Terry.



Rydym eisioes wedi derbyn Cynulliad - nawr mae`n bryd cael datganoli gwirioneddol, a thrwy hynny symud rhai o`r prif sefydliadau Cymraeg o`r br ddinas. Mae prisiau tai wedi dechrau codi eto yng nghefn gwlad Cymru, a symud mawr wedi bod ar y farchnad dai eleni. Mae`r ail fewnlifiad wedi dechrau, ac os gollwn ni`r frwydr honno yn y gorllewin, fydd dim byd ar ôl.

Y bwrdd golygyddol: Daniel Davies +
Owen Llywelyn *
John Tillman #

Seren Tan Gwmwl:

Y Fflat, Clwb Dewi Sant, 35 Eastgate, Aberystwyth +
7 Ffynnon Jôb, Caerfyrddin 01267 233588 *
Fflat 36D, Plaza y Luis Menotti, Rosario, Yr Ariannin #

Cân caniadau`r byd o glwyfau Sbaen.

60 mlynedd yn ôl..... Ar Fawrth 27, 1939 daeth Rhyfel Cartref Sbaen i ben pan gipiwyd Madrid gan y Ffasgwyr dan arweiniad y Cadfridog Franco. Arweiniodd hyn at lofruddio 200,000 o bobl gan Franco rhwng 1939 ac 1944, ac anfon dros filiwn o bobl Sbaen i wersylloedd gwaith. Arweiniodd hefyd at bron i ddeugain mlynedd o lywodraeth ffasgaidd creulon ac unbeniaethol yn Sbaen tan marwolaeth Franco yn 1975.

Mae hanes y Rhyfel Cartref ddigwyddodd yn Sbaen rhwng 1936 ac 1939 erbyn hyn yn dechrau cael ei anghofio. Roedd brwydr llywodraeth **ddemocrataidd** Sbaen gafodd ei hethol yn 1936 yn erbyn yr arweinydd milwrol Franco yn un arwrol. Ar ochr y llywodraeth - y Weriniaeth - ymladdodd sosialwyr, comiwnyddion, anarchwyr, rhyddfrydwyr a phobl o wledydd eraill oedd yn credu mewn rhyddid a democratiaeth. Yn y rhyfel hwn ymladdodd Eric Arthur Blair (George Orwell) ac Ernest Hemingway. Ond mae Seren Tan Gwmwl yn cofio heddiw y 174 o Gymry aeth i ymladd gyda`r Frigâd Ryngwladol yn Rhyfel Cartref Sbaen, a`r modd y gwnaeth Cymru fel gwlad gefnogi brwydr arwrol ein brodyr yn Sbaen dros ryddid, democratiaeth a sosialaeth.

O`r 174 o Gymry aeth i ymladd yn Sbaen roedd 122 yn dod o`r cymoedd glo yn y De, a 34 o borthladdoedd glo cyfagos. Brwydr ddosbarth oedd y rhyfel iddyn nhw. Brwydr yn erbyn y gelyn Ffasgaidd oedd yn prysur sathru ar hawliau democrataidd gweithwyr ar hyd a lled Ewrop, ac yn Sbaen roedd yn frwydr yn erbyn ceidwadaeth oedd yn credu mewn cadw tir yn nwylo`r tirfeddiannwr a`r eglwys, a chadw breintiau dosbarth.

Ar y pryd doedd llywodraeth Prydain ddim am ymladd yn erbyn Ffasgiaeth yn Ewrop. Roedd yn credu cymaint mewn aros yn niwtral fel ei bod yn anghyfreithlon i Brydeinwyr fynd i ymladd yn Sbaen: bu`n rhaid i`r Blaid Gomiwnyddol ym Mhrydain felly drefnu bod llawer o`r Cymry oedd yn mynd i ymladd yn Sbaen yn cael eu `smyglo` i`r cyfandir er mwyn iddyn nhw gael ymuno gyda`r Frigâd Ryngwladol - sef byddin o bobl asgell chwith o wahanol wledydd oedd yn credu`n ddigon cryf yn achos Sbaen i farw drosti. Yr unig wledydd i ymyrryd yn y Rhyfel oedd Yr Almaen, Yr Eidal a Phortiwgal ar ochr y Ffasgwyr, a Mexico a Rwsia ar ochr y Weriniaeth.

Yng Nghymru`r 1930`au roedd diweithdra a newyn yn gyffredin, ac o`r ardaloedd ddioddefodd waethaf y daeth yr arwyr aeth i ymladd yn Sbaen. Roedd o leiaf 20% o`r Frigâd Ryngwladol Brydeinig wedi bod yn y carchar o`r blaen am frwydro dros hawliau gweithwyr ym Mhrydain. O`r llinell biced, o`r Orymdaith Newyn, o`r brotest yn erbyn y Prawf Moddion fe deithion nhw i Sbaen i ymladd yn erbyn Ffasgiaeth o fath arall. **Un** gelyn oedd ganddyn nhw, ac roedd hwnnw yn ymddangos yn Ne Cymru ac yn Sbaen ar ffurf tlodi a newyn. Talwyd teyrnged iddyn nhw gan un o arweinwyr y Weriniaeth yn Sbaen, Dolores Ibarvin, neu *La Pasionara*, pan ddywedodd...

Fe ddaethon nhw i`n gwlad ar grwsâd dros ryddid a democratiaeth i ymladd a marw dros Sbaen. Fe roddon nhw bopeth i ni, ac fe ddaethon nhw a dweud wrthon ni `Eich hachos chi, achos Sbaen, yw ein hachos ni. Dylai pob person gwâr frwydro dros yr achos hon`.

O gymoedd tlodi uffernol De Cymru daeth milwyr y Frigâd Ryngwladol. Ond o`r cymoedd hynny hefyd y daeth cefnogaeth ariannol a nwyddau i`r Weriniaeth yn Sbaen. Rhoddodd pobl dlawd De Cymru yn hael i`r frwydr yn Sbaen er bod dirwasgiad yn rhemp yno, a chanran uchel o`r bobl yn ddiwaith ac yn dioddef eu hunain o dlodi a newyn. Yn Awst 1936 cynhaliwyd cyfarfod protest enfawr i gefnogi`r Weriniaeth yng Nghastell Nedd gyda dros 10,000 o bobl yn bresennol. Daeth pentref bach Brechfa yn Sir Gaerfyrddin yn ganolfan bwysig ar gyfer derbyn plant amddifad o Wlad y Basg. Defnyddiodd Potato Joe o Abertawe ei longau i dorri`r blocâd a mynd â bwyd i`r bobl oedd yn ymladd dros y Weriniaeth.

Mae`r ffaith bod cymaint o Gymry yn fodlon ymladd dros eu cydweithwyr yn Sbaen yn rhan bwysig o hanes ein gwlad. *If you tolerate this, then your children will be next* yw esboniad y *Manic Street Preachers* o resymau`r bobl hyn dros fynd i ymladd yn Sbaen. Gwelent hi fel brwydr dros bopeth oedd yn dda: dros hawliau gweithwyr a phobl gyffredin, dros ddemocratiaeth, a dros sosialaeth. Mae un cymeriad yn nofel Lewis Jones *We Live* yn dweud hyn wrth ei gariad y noson cyn ei fod yn dychwelyd i Sbaen i ymladd.

Cofia, rwy`n falch o gael dychwelyd atyn nhw yfory. Rwy wedi bod gyda nhw drwy mywyd. Yn ein cartrefi, y pwll glo, y Fed a`r Blaid Gomiwnyddol. Mae`r streiciau a`r protestio a`r gorymdeithio wedi fy arwain yn uniongyrchol at hyn, y rhyfel dros ddemocratiaeth.

Colli`r Rhyfel Cartref wnaeth y Weriniaeth yn y pen draw, a hynny oherwydd triciau brwnt Stalin yn cefnogi`r Comiwnyddion yn unig, y ffaith bod Hitler a Mussolini wedi rhoi cefnogaeth anferth i`w cyd-Ffasgydd Franco, a`r ffaith bod llywodraethau Prydain a Ffrainc wedi aros yn niwtral. Ond mewn gwirionedd nid colli wnaeth y Cymry aeth i frwydro dros sosialaeth a democratiaeth yn Sbaen. Fe wnaethon nhw beryglu eu bywydau dros ddelfryd, ac mae eu cri, a chri *La Pasionara* a`r Weriniaeth dros Sbaen rydd, sosialaidd, yn dal i gael ei hadleisio ble mae pobl gyffredin yn ymladd yn erbyn gormes - NO PASARAN!

POUM POUM!

Pwy wnaeth ennill yn Vietnam?

Pan fydd hanes yr ugeinfed ganrif yn cael ei ysgrifennu fe fydd enw Ho Chi Minh yn un amlwg iawn. Hwn yw`r dyn wnaeth arwain gwlad fechan, annatblygedig yn erbyn pwer milwrol mwya`r byd... ac ennill.



Pan rannwyd y wlad ar hyd llinell orweddol 17 yn 1954 daeth Gogledd Vietnam yn wlad gomiwnyddol, a`r de`n wlad gyfalafol. Roedd etholiadau i fod i gael eu cynnal i ail-uno`r wlad yn 1956, ond cyn hynny roedd llywodraeth Eisenhower wedi dechrau cefnogi`r de cyfalafol ac yn awyddus i`w hatal rhag troi`n gomiwnyddol. Erbyn 1960 roedd Arlywydd Gogledd Vietnam, Ho Chi Minh wedi datgan ei fod yn barod i frwydro i uno`r wlad, ac ymateb JFK yn 1961 oedd i ddechrau anfon `ymgynghorwyr milwrol` i gefnogi llywodraeth y De. Yn 1964 ymunodd Unol Daleithiau`r America â`r rhyfel yn swyddogol.

Ond doedd yr Americanwyr ddim yn ymwybodol o athrylith Ho Chi Minh, na dyfeisgarwch a dyfal barhad pobl Vietnam. Yn y de sefydlwyd y grwp *guerilla* y Vietcong i frwydro yn erbyn milwyr America. Fe ddefnyddiodd rhain dactegau nad oedd yr Americanwyr yn gyfarwydd â nhw, na`n medru gwneud dim amdanynt. Crewyd rhywdwaith o dwneli cudd gan y VC ble gallent guddio am ddiwrnodau cyn dod nôl i`r wyneb i frwydro. Yn ystod y dydd byddent yn toddi mewn i`r boblogaeth gynhenid, ac yn y nos yn dod allan unwaith eto i ymladd yr Americanwyr. Carient arfau o`r gogledd i`r de ar hyd Llwybr Ho Chi Minh, oedd yn cynnwys rhannau helaeth o jyngl yn Cambodia a Laos.

Arweiniodd hyn at dactegau erchyll ar ran yr Americanwyr. Byddent yn mynd ar deithiau *search and destroy* ac yn llosgi pentrefi cyfan, gan ladd pobl ddiniwed fel wnaeth ddigwydd yn My Lai. Byddent lladd popeth mewn ardal arbennig.

HO! HO! HO!

Yn ystod y rhyfel bu farw 2 filiwn o bobl Vietnam, a chlwyfwyd mwy na hynny. Llwyddodd gwl fechan i guro grym milwrol Unol Daleithiau`r America. Yr ofn mawr yw bod pethau wedi newic cymaint erbyn heddiw fel bod y brwydro wedi bod yn ofer.



Erbyn heddiw gallwch gerdded i lawr y brif stryd yn Hanoi a chael eich twyllo eich bod mewn gwlad sy`n estyniad o America. Ho Chi Minh a`i filwyr enillodd y rhyfel yn erbyn America, ond mae`r rhyfel economaidd ffyrnig yn erbyn Vietnam sydd wedi digwydd ers 1973 wedi gorfodi`r wlad i fabwysiadu rhai o agweddau gwaethaf cyfalafiaeth. Byddai Ho Chi Minh yn troi yn ei fedd o weld y *backpackers*, y gwyr busnes o Japan ac America, y twristiaid yn mynd ar deithiau o gwmpas tweli`r Vietcong, a`r dyn Malboro yn ei het gowboi sydd i`w weld ar bosteri hysbysebu.

Yn 1981 pasiodd Cyngres America Ddeddf Masnachu â`r Gelyn oedd yn golygu nad oedd hawl gan fudiadau gwirfoddol fel Oxfam America allforio nwyddau i Indo-China. Ymunodd Thatcher yn y dial, a llwyddodd i berswadio`r Gymuned Ewropeaidd i beidio allforio llaeth i blant Fietnam. Aeth America ati i arfogi a chefnogi yr unben gwallgof Pol Pot a`r Khmer Rouge yn eu brwydr yn erbyn Vietnam.

Pan arwyddodd America gadoediad gyda llywodraeth Gomiwnyddol Gogledd Vietnam yn 1973 addawodd Nixon fel rhan o`r cytundeb y byddai Vietnam yn derbyn ad-daliadau gwerth $3 biliwn am y difrod achoswyd gan y rhyfel. Byddai llywodraeth Vietnam wedyn yn gwario`r arian hwn ar ail-adeiladu eu gwlad, gan ddefnyddio cwmniau Americanaidd i wneud hynny. Gwrthodod America dalu`r arian: yn waeth na hynny ymosododd yn economaidd ar Vietnam a rhewi ei hasedau. Gwrthodod adael i gwmniau Americanaidd fasnachu â hi, a pherswadiodd Banc y Byd i beidio gwario arian roedd wedi addo ar gyfer dyfrhau tir.

Erbyn 1986 roedd prisiau wedi codi i`r fath raddau fel bod y Politburo yn Vietnam i gyd wedi ymddiswyddo gyda`i gilydd. Yn y flwyddyn honno daeth Nguyen Van Linh yn arweinydd newydd ar Vietnam. Hwn oedd Gorbachev Vietnam, ond yn wahanol i Gorbachev nid oedd ganddo egwyddorion o unrhyw fath. Yn 6ed Cyngres y Blaid Gomiwnyddol yn Rhagfyr 1986 cyhoeddodd ragler economaidd newydd - Doi Moi, neu ail-adeiladu. Roedd Doi Moi, mewn gwirionedd yn golygu gwerthu pob egwyddor yr ymladdodd Viet Minh a`r Vietcong mor galed drostyn nhw.